rhywogaethau, yr unig nodwedd pwysig yw'r gwrych sy'n mynd o'r gogledd i gyfeiriad y de-orllewin – argymhellir felly bod y gwrych yn cael ei gadw a'i ffensio i ffwrdd, fel nad yw'r gwersyllwyr yn cael mynediad ato gan achosi difrod i'r coed a'r llwyni. Byddai'r mesur yma hefyd yn cadw ei swyddogaeth fel coridor bywyd gwyllt. Mae'r cynefin glaswelltir yn wael iawn o ran rhywogaethau ac o werth cyfyngedig i gadwraeth.

- Fe wnaeth yr arolwg moch daear adnabod presenoldeb dau ddaear un mynediad sydd fymryn y tu allan i'r ffin datblygu a welwyd yn ystod yr arolwg rhagarweiniol.
- Bydd angen trwydded gan CNC i ymgymryd â'r gwaith arfaethedig

Sylwadau pellach

- Mae'r mesurau lliniaru o safbwynt Safle Bywyd Gwyllt Bryn Tirion, argymhellwyd rhai yn yr adroddiad arolwg botanegol, wedi eu cynnwys yn Adran 8.1. Mae'r rhain yn synhwyrol a dylid eu gweithredu, – mae'r adroddiad a'r cynllun yn dangos mai dyma'r bwriad, gan gynnwys cadw'r gwrychoedd a'r coed fel a bennwyd.
- Mae hyn yn cynnwys y pwyntiau bwled am warchod adar sy'n nythu a rhywogaethau gwarchodedig eraill.
- Gwnaed argymhellion gwella bioamrywiaeth i wella ansawdd Safle Bywyd Gwyllt Bryn Tirion yn Adran 9. Mae'r rhain yn synhwyrol, ac os cânt eu gweithredu byddant yn welliant i'r safle o safbwynt bywyd gwyllt.
- Mae'r argymhellion yn yr arolwg botanegol wedi eu cynnwys, ac wedi eu disodli gan yr adroddiad arolwg moch daear, ac felly y ddogfen hon y dylid ei dilyn.
- Mae'r safle mewn Safle Bywyd Gwyllt Lleol ac felly mae'n siomedig bod y glaswelltir mor wael, fodd bynnag, mae o werth isel.

Deilliannau

- Rhaid gweithredu'r argymhellion lliniaru a gwella sydd yn adrannau 8 a 9 yr arolwg Moch Daear i wella'r safle.
- Bydd hefyd angen trwydded moch daear.

Uned Gorfodaeth Trwyddedu Carafanau:

Bydd y datblygiad yn amodol ar y Ddeddfwriaeth isod o agwedd Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân a darpariaeth Iechyd Cyhoeddus fel a ganlyn:-

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ag Ati 1974
   Health and Safety at Work etc Act 1974

2. Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960
   The Caravan Sites and Control of Development Act 1960

3. Safonau Model 1983 - Carafanau Teithiol Rhaid i'r datblygiad gydymffurfio yn llawn gyda amodau trwydded https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Dogfennau-Busnes/Trwyddedau/Carafannau/SafonauModel-1983-Teithiol-a-Pebyll.pdf
4. Cais am Drwydded Safle Yn dilyn unrhyw gais cynllunio sydd yn ei ganiatáu mewn perthynas â maes carafanau neu bebyll, rhaid i'r

## 7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo’r hawl i’r Rheolwr Cynllunio i ganiatáu’r cais yn ddarostyngedig i’r amodau canlynol:

- Amser
- Yn unol â’r cynlluniau diwygiedig.
- Cyfyngu nifer o unedau teithiol i 19 carafán yn unig.
- Defnydd gwyliau yn unig a chadw cofrestr.
- Tymor gwyliau - 1af Mawrth i 31 Hydref
- Dim storio carafanau teithiol ar y safle.
- Plannu’r gwrych terfyn yn y tymor plannu cyntaf yn dilyn derbyn caniatâd.
- Rhaid cadw coed a gwrychoedd ar hyd terfynau’r safle.
- Cyfyngir unrhyw loriau caled i leiniau carafanau yn unig.
- Cytuno lliw’r adeilad cyfleusterau.
- Dilyn mesurau argymhellion yr adroddiad Arolwg Moch Daear a Chynllun Mesurau Lliniaru Bywyd Gwyllt.

Nodiadau:
Angen Trwydded Moch Daear
Angen Trwydded Carafanau
Tynnu sylw at sylwadau Dŵr Cymru